# Polisi Rheoli Meddyginiaeth

| | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyo (gan y corff llawn) | 11.11.24 |
| Dyddiad adolygu | Hydref 2025 |

| | |
|---|---|
| Cadeirydd Llywodraethwyr | |
| Pennaeth | |

Dymuna Bwrdd Llywodraethol a Staff Ysgol Gymraeg Teilo Sant ble bynnag mae modd gwrdd â gofynion meddygol plant er mwyn iddynt dderbyn y gofal a chefnogaeth briodol. Mae'r polisi yn unol â gofynion dogfen canllawiau Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag anghenion Meddygol. Mai 2010 a chanllawiau'r Awdurdod Lleol ar reoli meddyginiaeth yn yr ysgol Awst 2010.

Rhieni sydd â'r prif gyfrifoldeb am iechyd eu plant. Bydd gofyn i lawer o blant gymryd meddyginiaeth yn yr ysgol rywbryd yn ystod eu bywyd ysgol. Gan amlaf, bydd hyn yn digwydd tros gyfnod byr yn unig. Bydd caniatáu iddynt wneud hyn yn lleihau cyfnod eu habsenoldeb o'r ysgol. Ni ddylid mynd â meddyginiaeth i'r ysgol oni bai bod hynny'n hanfodol, hynny yw, byddai iechyd y plentyn yn dioddef pe na bai'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi tra bo'r plentyn yn yr ysgol. Os yw'n briodol yn glinigol, gorau oll os caiff meddyginiaethau eu rhagnodi er mwyn galluogi disgyblion i'w cymryd y tu allan i oriau ysgol. Anogir rhieni i holi'r sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth a yw hyn yn bosibl. Hwyrach y gellid trefnu bod y feddyginiaeth sydd angen ei chymryd tair gwaith y dydd yn cael ei chymryd yn y bore, ar ôl yr ysgol a chyn mynd i'r gwely, er na fydd hyn bob amser yn briodol, e.e. i rai plant a phobl ifanc sydd â diabetes.

Gall rhieni drefnu dod mewn i'r ysgol i roi meddyginiaeth i'w plant os yn ymarferol bosib.

Nid oes dyletswydd ar staff o dan y gyfraith na chontract i roi meddyginiaeth i blentyn na'i oruchwylio wrth ei chymryd. Wrth reswm, bydd angen i unrhyw aelod o staff weithredu ar fyrder er mwyn cynorthwyo unrhyw blentyn mewn argyfwng.

Ni ddylai staff byth roi meddyginiaeth ddi- bresgripsiwn i blentyn.

**Canllawiau ar gyfer staff yr ysgol a rhieni.**

- Dim ond meddyginiaeth presgripsiwn sydd wedi'u rhoi gan feddyg, deintydd a nyrs neu fferyllydd â'r hawl i roi presgripsiwn bydd yr ysgol yn eu derbyn
- Ni roddir meddyginiaeth ddi-bresgripswn.
- O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i rieni roi caniatâd cyn gall meddyginiaeth gael ei rhoi i'w plentyn, ac i'r darparwr gadw cofnod ysgrifenedig. Mae'r ffurflen swyddogol yr ysgol ac ar gael ar wefan yr ysgol neu gopi caled ar gael o Swyddfa'r ysgol.

- Dim ond mesur synhwyrol o'r feddyginiaeth dylid anfon i'r ysgol. (e.e. digon o gyflenwad am 4 wythnos)
- Dylid rhoi'r feddyginiaeth yn y cynhwysydd gwreiddiol a ddefnyddiwyd gan fferyllydd neu feddyg fferyllol a chynnwys cyfarwyddiadau gweinyddu'r sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth.
- Cedwir y feddyginiaeth mewn lle priodol a diogel.
- Y pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod meddyginiaeth yn cael eu storio'n ddiogel
- Dylai pob meddyginiaeth frys, fel anadlwyr asthma, pennau adrenalin a glucogel, fod ar gael yn gyfleus ond yn ddiogel er mwyn gweinyddu ar frys yn hytrach na'u cadw dan glo.
- Dylid dychwelyd meddyginiaeth nid oes eu hangen pellach yn ôl i'r rhiant er mwyn trefnu ei fod yn cael ei waredu'n ddiogel.
- Rhieni sy'n gyfrifol am sicrhau bod meddyginiaeth sydd wedi pasio eu dyddiad terfyn yn cael eu dychwelyd i fferyllfa i gael eu gwaredu'n ddiogel. Dylent hefyd gasglu meddyginiaethau sy'n cael eu cadw gan yr ysgol ar ddiwedd bob tymor.
- Mae gan blentyn hawl gyfreithlon i gario cyffur a reolir os yw wedi'i ragnodi ar ei gyfer. Er diogelwch plant eraill rydym fel ysgol yn annog bod meddyginiaeth yn cael eu cadw dan ofal staff.
- Dylai unrhyw aelod o staff sy'n rhoi meddyginiaeth i blentyn gadarnhau

1. Ei enw a'i ddyddiad geni
2. Cyfarwyddiadau ysgrifenedig y rhieni neu'r sawl sy'n rhagnodi'r feddyginiaeth.
3. Y dos a ragnodir

- Os yw plentyn yn gwrthod cymryd meddyginiaeth , ni ddylai staff ei orfodi i'w chymryd, ond dylid hysbysu rhieni bod y plentyn wedi gwrthod y feddyginiaeth ar yr un diwrnod. Os yw'r ffaith fod y plentyn yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth yn arwain at argyfwng, dylid dilyn gweithdrefnau argyfwng yr ysgol.
- Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech posib i barhau gyda rhoi meddyginiaeth pan allan o'r ysgol ar wibdeithiau.
- Cyfrifoldeb y rhieni yw hysbysu'r ysgol o unrhyw newidiadau o ran meddyginiaeth y plant.
- Mewn rhai achosion o blant sydd ag anghenion meddygol hir dymor bydd hi'n ofynnol i rieni/gwarcheidwad lenwi ffurflen –Cynllun Gofal Iechyd
- Meddygyniaeth adrenalin brys (epi-pen):
    - Mae angen cadw rhestr cyfredol o ddisgyblion sydd yn cario epi-pen yn y swyddfa.
    - Mae angen sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant epi-pen ar ddechrau pob blwyddyn ysgol (os oes disgybl yn yr ysgol sydd angen triniaeth)
    - Mae angen cadw cofnod o'r athrawon/gofalwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant